COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 18 MEDI 2019, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd SE Baldwin – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett |
| RJ Collins | HJ David | P Davies | PA Davies |
| SK Dendy | J Gebbie | T Giffard | RM Granville |
| CA Green | DG Howells | A Hussain | RM James |
| M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis | JR McCarthy |
| RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe | KL Rowlands |
| B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith | JC Spanswick |
| G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables |
| SR Vidal | MC Voisey | LM Walters | KJ Watts |
| DBF White | PJ White | AJ Williams | HM Williams |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MC Clarke, N Clarke, DK Edwards, B Jones, SG Smith, RME Stirman, CA Webster, A Williams a/ac J Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |

348. DATGAN BUDDIANNAU

Fe wnaeth y Cynghorydd N Burnett ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 9 ar yr Agenda fel Aelod gynrychiolydd etholedig CBSP ar gyfer cyfarfodydd Llys Prifysgol Abertawe.

Fe wnaeth y Cynghorydd RE Young ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 7 ar yr Agenda fel Aelod gynrychiolydd CBSP ar y Panel Heddlu a Throseddu.

Gadawodd y ddau Aelod y cyfarfod pan drafodwyd y priod eitemau yr oeddent wedi datgan buddiant ynddynt.

349. CYMERADWY'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion y cyfarfod o'r Cyngor dyddiedig 23 Gorffennaf 2019, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

350. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Cyhoeddodd y Maer ei fod yn rhoi pleser mawr iddo gyhoeddi mai'r Maer Ieuenctid ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd Megan Lambert a'r Dirprwy Faer Ieuenctid yw Todd Murray.

Cynhaliwyd dawns Elusennol y Maer Ieuenctid ar 6ed Medi yn yr Hi Tide ym Mhorthcawl, er budd yr elusen Prostate Cymru, elusen a ddewiswyd gan y bobl ifanc yn y Cyngor Ieuenctid. Cafwyd oddeutu 30 o wobrau gan fusnesau lleol.

Roedd holl aelodau presennol ac aelodau newydd y cyngor ieuenctid wedi cael eu gwahodd i'r Ddawns, gan gynnwys nifer o bobl ddethol gan gynnwys ef ei hun, yr Arweinydd, y Cyng Patel, y Prif Weithredwr a Lyndsay Harvey.

Dywedodd fod y Ddawns yn ffordd hwyliog o ddiweddu tymor Lewis fel Maer Ieuenctid ac y'i defnyddiwyd fel y seremoni swyddogol i drosglwyddo'r awenau i Megan a Todd. Bu'n noson lwyddiannus dros ben a chodwyd oddeutu £400, ac roedd hefyd yn braf gweld gwleidyddion ein dyfodol mor frwd ac am i'w lleisiau gael gwrandawiad.

Ar y nos Wener mynychodd ei Gymhares ac yntau, Wobrau Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr a noddwyd gan Gymdeithas Dai Cymoedd i'r Arfordir ac a gynhaliwyd yng Ngwesty Coed-y-Mwstwr. Mae'r gwobrau mawreddog hyn yn cydnabod ac yn gwobrwyo rhagoriaeth ar draws busnesau o bob maint a sector yn y fwrdeistref sirol.

Cafwyd amrywiol gategorïau o enillwyr, ond yr enillydd terfynol oedd Rockwool Uk Ltd a gipiodd y teitl blaenllaw, sef 'Busnes y Flwyddyn Pen-y-bont ar Ogwr 2019'.

Amlygodd y gwobrau'r llu doniau busnes sydd i'w cael yn y fwrdeistref sirol a dros yr wythnosau nesaf byddai'n ymweld â'r busnesau'n bersonol i'w llongyfarch ac i weld â'i lygaid ei hun y gwasanaethau a ddarparant. Fe wnaeth y noswaith hefyd godi dros £800.00 tuag at ei elusen ar gyfer eleni sef Pride Cymru.

Roedd yn bleser mawr gan y Maer hefyd hysbysu'r Aelodau bod Gorsaf Dân Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael eu coroni yn bencampwyr byd am y 4edd flwyddyn yn olynol ym Mhencampwriaethau Achub y Byd. Cynhaliwyd y rowndiau terfynol yn ddiweddar yn Ffrainc gyda Phen-y-bont ar Ogwr yn cynrychioli Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r DU. Dyma'r 7fed flwyddyn iddynt ennill y teitl ac roedd yn sicr yr hoffai'r aelodau a'r swyddogion ymuno ag ef i gynnig eu llongyfarchiadau cywiraf, y byddai'n gofyn i'n cynrychiolwyr y Cyng David White a'r Cyng Rod Shaw eu datgan wrth y Gwasanaeth.

Dywedodd y Maer iddo gael y pleser o fynychu agoriad swyddogol cynllun tai fforddiadwy Wales and West Hafod Housing yng Nghoety ar 28ain Awst. Roedd wedi gweld y tu mewn i un cartref penodol a oedd wedi'i addasu â thaclau codi ac a oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Yn olaf, fe wnaeth hefyd fynychu agoriad amddiffynfeydd llifogydd traeth Tref Porthcawl yr wythnos diwethaf ag aelodau'r Cabinet a Lesley Griffiths, AC. Roedd yn braf iawn gweld bod y prosiect hwn a gyflawnwyd yn llwyddiannus iawn bellach yn amddiffyn dros 260 o eiddo wrth ymyl y môr.

Dirprwy Arweinydd

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod ymgynghoriad y Cyngor ar y gyllideb flynyddol yn mynd rhagddo, a diolchodd i bawb a fynychodd y cyfarfod briffio cyn y Cyngor. Os oedd unrhyw Aelodau heb fynychu, cynghorodd yn gryf eu bod yn aros ar gyfer yr ail sesiwn ar ddiwedd y Cyngor, fel bod yr Aelodau'n gallu sicrhau bod yr holl wybodaeth y mae arnynt ei hangen i gynghori eu hetholwyr ganddynt.

Gyda fersiynau safonol, ieuenctid, print bras a hawdd eu darllen o'r ymgynghoriad ar gael, mae cynllun cyfathrebu llawn wedi'i sefydlu i annog pobl i gyfranogi. Mae hyn yn cynnwys offer a deunyddiau megis fideo eglurhaol, hysbysebion radio, posteri,

pamffledi, cardiau busnes, codau QR, arwyddion digidol, postiadau cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg a mwy.

Cynhelir dadl fyw ar y cyfryngau cymdeithasol ddydd Mawrth 2 Hydref fel rhan o hyn, ac unwaith eto roedd yn gobeithio y byddai'r Aelodau yn dangos eu cefnogaeth i hyn.

Mae ein tîm ar gyfer yr ymgynghoriad yn cynnal digwyddiadau ymwybyddiaeth ac yn ymweld â grwpiau cydraddoldeb, ysgolion, cynghorau tref a chymuned a mwy.

Trefnwyd pum Panel Dinasyddion, a bydd ein partneriaid yn BAVO yn cynnal dau ddigwyddiad eu hunain i ategu hyn.

Roedd hefyd yn gobeithio y byddai'r Aelodau yn annog pobl i gyfranogi yn yr ymgynghoriad gan ein bod yn dadansoddi'r adborth hwn ac yn ei ddefnyddio i hysbysu ein penderfyniadau terfynol.

Byddai o ddiddordeb i'r Aelodau glywed o bosibl ein bod wedi ymuno â Chyngor Tref Porthcawl, Surfers Against Sewage, Cadw Porthcawl yn Daclus a grwpiau gwirfoddolwyr eraill sy'n pryderu am yr amgylchedd lleol er mwyn ceisio cael Porthcawl i fod y gyntaf i fod yn dref dim plastig yn y fwrdeistref sirol.

Ffurfiwyd grŵp cymunedol o'r enw Plastic Free Porthcawl, ac mae dwsin o fusnesau eisoes wedi cytuno i roi'r gorau i ddefnyddio o leiaf dair eitem blastig.

Mae gwellt plastig, poteli, topiau, cyllyll a ffyrc, cydau, cwpanau yfed, caeadau, bagiau a phecynnau parod eraill ymysg y sbwriel sy'n cael eu taflu fwyaf, ac mae gormod ohonynt yn difrodi'r blaned.

Fel rhan o'r cynllun, rydym yn trefnu gweithdai ar gyfer busnesau Porthcawl lle gallant ganfod mwy am bwysigrwydd a manteision defnyddio llai o bolystyren a phlastigau.

Mae CBSP hefyd eisiau rhagor o fusnesau i gofrestru ar yr ap 'Refill' sy'n dangos lle gall pobl lenwi eu poteli ailddefnydd â dŵr tap am ddim.

Os yw'r cynllun yn llwyddiant, gellid ei ddatblygu ymhellach, ac roedd yn edrych ymlaen at ddod â mwy o newyddion am hyn i'r Aelodau.

<u>Aelod Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant</u>

Rhoddodd yr Aelod Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant, ddiweddariad i'r Aelodau ar yr ymateb lleol cadarn i'r arlwy gofal plant gan Lywodraeth Cymru. Mae oddeutu 450 o geisiadau wedi dod i law'r Cyngor ers cyflwyno'r cynllun ym mis Mai.

Mae'r cynllun yn rhoi i rieni plant 3 a 4 oed hyd at 30 awr o ofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar am ddim am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Mae'r ceisiadau'n awr ar agor ar gyfer plant a aned rhwng 1 Medi 2015 a 31 Awst 2016.

Roedd yn sicr y byddai'r Aelodau'n dymuno helpu i hyrwyddo hwn yn eu wardiau, gan atgoffa rhieni sy'n gweithio y gallent fod yn gymwys i gael gofal plant am ddim.

<u>Aelod Cabinet – Cymunedau</u>

Dywedodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau y bydd siop ailddefnydd newydd yn agor yn yr hydref yn y ganolfan ailgylchu gymunedol ym Maesteg.

Gall pobl roddi eitemau cartref nad oes arnynt eu heisiau mwyach ac sydd mewn cyflwr da yng nghanolfan Ystâd Ddiwydiannol Heol Tŷ Gwyn.

Bydd y siop yng ngofal menter gymdeithasol Waste Savers mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Kier, a'r enw arni fydd 'The Siding' i gydnabod gorffennol pyllau glo Maesteg.

Caiff unrhyw elw o werthu'r eitemau y gellir eu hail-ddefnyddio yn The Siding ei ail-fuddsoddi mewn rhaglenni cymdeithasol.

Mae Waste Savers eisoes yn rhedeg siopau tebyg mewn canolfannau ailgylchu yn Llantrisant, Casnewydd a Threherbert. Maen nhw'n boblogaidd dros ben, felly bydd unrhyw un sy'n chwilio am fargen wrth ei fodd, ychwanegodd.

Ar nodyn arall, bydd y Prif Weithredwr ac yntau, yn mynychu digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhelir gan Dasglu'r Cymoedd yn Nhondu ar 30ain Medi 2019.

Mae'r digwyddiad hwn, a drefnwyd ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru ac a gynhelir yng Ngholeg Cymunedol y Dderwen, yn canolbwyntio ar gysylltiadau rheilffyrdd lleol a mabwysiadu cledrau'r cymoedd.

Ceir yno stondinau gwybodaeth gan nifer o wahanol sefydliadau, a chyflwynir y digwyddiad fel sesiynau galw i mewn anffurfiol rhwng 4.00pm a 7.00pm; bydd hefyd yn cynnwys sesiwn Hawl i Holi a fydd yn dechrau am 5.30pm.

Rydyn ni'n gobeithio y bydd yr Aelodau yn cefnogi'r digwyddiad hwn, ac yn helpu i ennyn cyhoeddusrwydd iddo yn eu wardiau.

Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio, fod yr Aelodau'n cofio o bosibl fel y mae'r fenter Parc Rhanbarthol y Cymoedd neu 'VRP' yn ceisio datblygu rhwydwaith amlwg iawn sy'n cynnwys ucheldir, coetiroedd, gwarchodfeydd natur, parciau gwledig, afonydd, cronfeydd dŵr, camlesi, safleoedd treftadaeth ac atyniadau, oll wedi'u cyplysu â threfi a phentrefi ledled y Cymoedd.

Cawsom newyddion da iawn yn ddiweddar gyda'r cyhoeddiad bod cyllid VRP wedi cael ei gymeradwyo i helpu i gefnogi hyn ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Bydd Parc Gwledig Bryngarw yn cael £500,000, a dyrannwyd £400,000 i Barc Slip. Mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ac Ymddiriedolaeth Natur, De a Gorllewin Cymru, byddwn yn gwneud nifer fawr o welliannau i wella profiad ymwelwyr drwyddo draw.

Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn gwella cynefinoedd a mynediad, yn gosod paneli solar, goleuadau ynni-effeithlon, yn darparu cyfleoedd chwarae newydd i blant, llochesi beics 'to gwyrdd' a llawer mwy.

Caiff mannau gwefru beics a cheir trydan eu cyflwyno ym Mharc Slip, a bydd Bryngarw yn cael adeilad addysg newydd ar gyfer ysgolion.

Mae'n bosibl y bydd yr Aelodau wedi gweld bod eu cydweithwyr yn Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar wedi cytuno i nodi trychineb Aberfan gyda munud o dawelwch yn yr ysgolion lleol.

Mae Hydref 21ain 1966 yn un o'r dyddiadau prin hynny lle gallwch chi gofio'n union lle'r oeddech chi a beth oeddech yn ei wneud pan dorrodd y newyddion trasig.

Yn fuan ar ôl i'r ysgol gynradd orffen eu gwasanaeth boreol, a dechrau gwers gyntaf y dydd, lladdwyd cant a phedwar-deg pedwar o bobl yn y trychineb, gyda 116 ohonynt yn blant.

Cymeradwyodd Sir Gaerfyrddin am hyn, a theimlai ei bod ond yn iawn ac yn addas inni wahodd ein hysgolion lleol ein hunain i nodi'r trychineb eleni mewn modd priodol a sensitif, gyda disgyblion o oedran priodol.

Os cytunai'r Aelodau, gellid hefyd ei wneud yn wasanaeth coffa parhaol mewn blynyddoedd, nid o anghenraid drwy gynnig gerbron y Cyngor fel ein ffrindiau yn Sir Gaerfyrddin, ond o bosibl dim ond drwy gytundeb cyffredinol ac yna drwy gylchlythyr gan y gwasanaeth addysg.

<u>Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>

Dywedodd yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod ein gwaith â Gofalwyr Ifanc wedi cyrraedd carreg filltir yn ddiweddar pan gyflwynwyd y 300fed cerdyn adnabod gofalwyr ifanc i berson ifanc lleol.

Datblygwyd y cerdyn bedair blynedd yn ôl i helpu plant a phobl ifanc sy'n gorfod gofalu am rywun, a'r nod yw eu helpu ym myd addysg a'i gwneud yn haws iddynt pan fônt yn gorfod esbonio eu hamgylchiadau.

Yr oll mae'r Gofalwyr Ifanc yn gorfod ei wneud yw dangos y cerdyn i'w hathro neu i oedolyn arall i roi gwybod iddynt am y cyfrifoldebau ychwanegol sydd ganddynt gartref.

Os yw plentyn neu berson ifanc mewn sefyllfa lle mae'n cymryd cyfrifoldeb dros rywun sy'n wael, yn anabl, yn hen, yn dioddef salwch meddwl neu rywun y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio arnynt, yna maent, yn ôl y diffiniad, yn Ofalwr Ifanc.

Os ydynt yn gyfrifol am ofalu am frawd neu chwaer, mae hyn hefyd yn eu gwneud yn Ofalwr Ifanc.

Mae'r Cyngor wrthi'n brysur yn adnabod pobl y gallent fod yn ofalwyr ifanc, ac yn cynnig iddynt gefnogaeth a gwybodaeth.

Tynnwyd sylw Llywodraeth Cymru at y cynllun, ac roedd yn falch o ddweud ei bod yn ystyried cyflwyno fersiwn genedlaethol a fydd yn targedu Gofalwyr Ifanc ar draws Cymru.

Dywedodd yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cynnal Arolygiad Cenedlaethol yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystod y mis. Cadarnhaodd mai diben yr arolygiad, oedd gweld i ba raddau y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn hybu annibyniaeth ac yn atal anghenion cynyddol i oedolion hŷn. Byddai'r arolygiad yn nodi'r ffactorau hynny sy'n sicrhau canlyniadau da i bobl, yn ogystal â'r pethau sy'n rhwystro cynnydd.

<u>Prif Weithredwr</u>

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr y cynhelir sesiwn friffio bwysig i'r Aelodau ar Gynlluniau Brexit ddydd Gwener 4 Hydref 2019 am 9.30am yn Siambr y Cyngor.

Roedd yn gobeithio y gallai cynifer â phosibl o'r Aelodau fynychu'r sesiwn hon.

Swyddog Monitro

Cyhoeddodd y Swyddog Monitro dri newid dyddiad i'r Pwyllgorau canlynol:-

1. Newid y Pwyllgor Archwilio dyddiedig 23ain Ionawr 2020 i 30ain Ionawr 2020. Gwnaed cyhoeddiad i'r perwyl hwn yn y Pwyllgor Archwilio diwethaf dyddiedig 8 Awst 2019.

2. Roedd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Testunau 1 a oedd i fod i gael ei gynnal ar 9 Medi 2019 wedi cael ei symud i 30 Hydref. Hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor o'r newid eisoes mewn e-bost.

3. Newid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Testunau 3 dyddiedig 4 Tachwedd 2019 i 14 Tachwedd 2019. Gwnaed cyhoeddiad i'r perwyl hwn yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Testunau 3 diwethaf ar 5 Medi 2019.

351. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Mewn pleidlais o ffydd nodedig yn economi Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru mewn adeg ansicr ac anodd iawn, cyhoeddodd Ineos Automotive heddiw y bydd yn codi safle gweithgynhyrchu a chyd-osod at y pwrpas, newydd 250,000 troedfedd sgwâr ym Mharc Busnes Brocastell er mwyn cynhyrchu eu cerbyd Grenadier 4x4 newydd.

Gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU bydd y cyfleuster yn creu 200 o swyddi i ddechrau, a hyd at 500 yn y tymor hir gyda lwc. I gartrefu'r cyfleuster newydd hwn, mae'r cwmni yn prynu 14 erw o dir gan Lywodraeth Cymru am bris y farchnad a gyda'r gwaith o ddatblygu seilwaith y safle eisoes yn mynd rhagddo, disgwylir i'r gwaith o gynhyrchu'r cerbyd newydd ddechrau mor gynnar â 2021.

Mae INEOS Automotive wedi llofnodi'r Contract Economaidd, sydd â'r nod o symbylu twf ac ymddygiad busnes cyfrifol ymysg cwmnïau. Mae iechyd a lles gweithwyr yn rhan bwysig o ethos INEOS.

Mae INEOS Automotive eisoes yn trafod â dau gwmni cyflenwi cydrannau yng Nghymru i ategu eu gwaith, a gallai hynny roi hwb pellach i economi Cymru.

Bydd gan y datblygiad hwn le ar gyfer 500,000 troedfedd sgwâr pellach a'r potensial i greu llawer o swyddi ar gyfer cwmnïau sy'n ehangu a denu buddsoddwyr newydd eraill. Mae'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth Ken Skates AC wedi cadarnhau heddiw nad dyma yw pendraw'r gwaith i helpu Pen-y-bont ar Ogwr yn dilyn cynlluniau Ford, a chadarnhaodd y bydd Llywodraeth Cymru yn dal i wneud popeth yn ei gallu i ddenu cyfleoedd busnes newydd, i gynorthwyo gweithwyr Ford a sicrhau buddsoddiadau pellach yn nyfodol Pen-y-bont ar Ogwr.

Edrychwn ymlaen at gyhoeddiadau pellach.

Mae CBSP hefyd yn falch dros ben bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyfraniad hollbwysig o £3.5m o gyllid drwy'r Undeb Ewropeaidd tuag at y gwaith y bwriedir ei wneud i ymestyn ac ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg.

Gyda buddsoddiad ychwanegol wedi'i roi gan y cyngor hwn, Awen, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru, Cyngor Tref Maesteg ac Ymddiriedolaeth Davies, gall y gwaith ar y prosiect £6m ddechrau'n fuan, gan atgyweirio'r adeilad nodedig sy'n 138 mlwydd oed a'i adnewyddu â chyfleusterau celf a diwylliant modern.

Ymysg y gwelliannau caiff llyfrgell fodern ei chreu, ynghyd â chanolfan dreftadaeth a gwirfoddol, caffi, mannau gweithio newydd, toiledau a chyfleusterau 'man newid' cwbl hygyrch. Caiff canolfan celfyddydau perfformio aml-swyddogaeth ei chreu ar y llawr cyntaf, a bydd yn cynnwys prif neuadd, llwyfan wedi'i adnewyddu, ystafelloedd newid gwell, bar ac am y tro cyntaf sinema gymunedol a theatr stiwdio fechan, fwy cartrefol. Bydd y mannau eistedd ar y balconi yn cael eu hadnewyddu, a bydd y lloriau uchaf ac isaf yn cael eu cysylltu ag atriwm gwydrog modern a chyntedd, fel bod yr adeilad drwyddo draw yn hygyrch.

Bydd cais am arian ychwanegol yn cael ei gyflwyno'n gynnar yn 2020 i sicrhau bod y dodrefn a'r ffitiadau diweddaraf yn cael eu gosod yn yr adeilad cyn iddo ailagor. Rydyn ni wrth ein bodd ein bod, diolch i'n hymdrechion ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, wedi gallu diogelu'r dyfodol, a hwnnw'n ddyfodol llewyrchus i'r adeilad hanesyddol hwn yng nghanol y dref, ar gyfer cenedlaethau lawer.

Bydd cannoedd o swyddi gwag ar gael yn ein ffair swyddi yn y Ganolfan Byd Gwaith yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr yfory. Cofiwch annog eich etholwyr sy'n chwilio am gyfleoedd i gael gwaith, hyfforddiant a gwaith gwirfoddol i fynd i'r Neuadd Fowlio yfory rhwng 10.00am a 1.00pm i gael cymorth a chyngor. Mae croeso i'r trigolion sy'n methu â chyrraedd yfory gysylltu â'r tîm cyflogadwyedd neu eu cyfarfod wyneb yn wyneb yn y sesiynau galw i mewn wythnosol ti4e a gynhelir ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Yn olaf, estynnodd yr Arweinydd ei ddiolch personol i'r Cyng M James a oedd wedi ildio ei swydd fel Arweinydd grŵp Plaid Cymru. Roedd ef ac Arweinyddion Grwpiau eraill wedi gweithio'n effeithiol ac yn agos iawn â'i gilydd yn drawsbleidiol. Estynnodd ei longyfarchiadau i'r Cyng T Thomas fel Arweinydd newydd y grŵp hwn, gŵr a oedd yn sicr am weithio mor adeiladol ag y gwnaeth y Cyng James yn ystod ei amser fel Arweinydd grŵp.

352. ADRODDIAD ALLDRO BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2018-19

Cyflwynodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid adroddiad, a oedd â'r diben o gydymffurfio â gofynion y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth 'Rheoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer' (y cyfeirir ato fel y Cod) i gyflwyno trosolwg o weithgareddau'r trysorlys dros y flwyddyn ariannol flaenorol, gan gynnwys Dangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2018-19, ac i amlygu fel yr oedd yn cydymffurfio â pholisïau ac arferion y Cyngor.

Dywedodd, fel y mae paragraff 3.2 o'r adroddiad yn datgan, fod gofyn i'r Cyngor weithredu swyddogaeth gyffredinol y trysorlys o safbwynt y Cod a mabwysiadwyd hwn yn ffurfiol gan y Cyngor ym mis Chwefror 2012. Mae hyn yn cynnwys y gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMS) cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, gyda'r strategaeth honno'n datgan cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Swyddogion Ariannol a'r trefniadau adrodd. Cymeradwyodd y Cyngor y TMS 2018-19 yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018.

Eglurai Paragraff 3.2 hefyd fod CIPFA, ar ddiwedd Rhagfyr 2017, wedi cyhoeddi rhifynnau newydd o Rheoli'r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer a'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, cafodd y TMS 2018-19 a'r adroddiad hwn eu cynhyrchu gan ddefnyddio Codau 2011 oherwydd, gan i Godau 2017 gael eu cyhoeddi'n hwyr, ni chawsant eu gweithredu tan TMS 2019-20.

Roedd Paragraff 3.4 o'r adroddiad yn atgoffa'r Cyngor, bod yr Aelodau wedi cymeradwyo polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw diwygiedig ar gyfer 2018-19 ar 19eg

Medi 2018, a oedd yn newid y dull o gyfrifo'r swm i'w roi i refeniw i ad-dalu costau cyllido cyfalaf.

Byddai'r holl weithgareddau buddsoddi eraill nas cynhwysir dan y Cod, megis buddsoddiadau eiddo, yn ddarostyngedig i gymeradwyaethau arferol gan y Cyngor ac nid oes angen iddynt gydymffurfio â'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Roedd gwerth cyfredol yr eiddo buddsoddi hwn yn £4.635 miliwn.

Amlinellai Adran 4.1 o'r adroddiad Sefyllfa Buddsoddiadau a Dyledion Allanol y Cyngor ar gyfer 2018-19, gyda chrynodeb yn Nhabl 1. Mae hwn yn dangos bod cyfanswm y benthyciadau allanol ar ddiwedd y flwyddyn yn £96.87 miliwn, gyda chyfradd llog o 4.69% ar gyfartaledd. Rhannwyd hwn rhwng benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a'r Opsiwn Echwynnwr Opsiwn Benthyciwr (a elwir hefyd yn LOBOs). Ni chymerwyd dim benthyciadau ychwanegol yn ystod 2018-19. Ceir hefyd rwymedigaethau hirdymor eraill gwerth cyfanswm o £17.88 miliwn, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â chynllun PFI Ysgol Maesteg.

O ran buddsoddiadau, y sefyllfa diwedd blwyddyn oedd cyfanswm buddsoddiadau o £27.4 miliwn, gyda chyfradd llog gyfartalog o 0.94%, gyda £21 miliwn ohonynt yn cael eu dal gan awdurdodau lleol eraill. Mae hwn wedi lleihau ers dechrau'r flwyddyn pan oedd yn £30.4 miliwn oherwydd bod mwy o fuddsoddiadau lefel uwch wedi cael eu had-dalu na'u gwneud. Mae hyn yn arwain at gyfanswm dyled net ar ddiwedd y flwyddyn o £87.35 miliwn.

Cyfeiriai Paragraff 4.1.6 o'r adroddiad at yr adolygiad o'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys drwy archwiliadau mewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn, gyda barn gyffredinol gan yr archwilwyr mewnol bod yr amgylchedd rheoli mewnol yn gadarn ac y gellir rhoi sicrhad sylweddol ynglŷn â rheoli'r risgiau.

Cyfeiriai Paragraff 4.1.7 o'r adroddiad at gynghorwyr Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, Arlingclose. Mae'r contract yn rhedeg am bedair blynedd a daw i ben ym mis Medi 2020.

Cyfeiriai Adran 4.2 o'r adroddiad at Reoli Risgiau'r Trysorlys 2018-19 a cheir yma fanylion sut mae'r Cyngor wedi lliniaru a lleihau risgiau, yn enwedig oddi wrth natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol. Y prif risgiau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yw Risg Credyd, Risg Hylifedd a Risg o'r Farchnad, ac wrth reoli ei fuddsoddiadau mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd ei arian cyn gweld yr elw, neu'r gyfradd enillion gorau.

Yna rhoddai Adran 4.3 o'r adroddiad wybodaeth am y cyd-destun allanol yr oeddem yn gweithredu ynddo yn ystod 2018-19. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd Cyfradd y Banc yn 0.50% a bu iddi aros felly tan 2 Awst 2018, pan wnaeth Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr gynyddu'r gyfradd 0.25% i 0.75%. Safodd Cyfradd y Banc ar 0.75% am weddill blwyddyn ariannol 2018-19.

Yn Adran 4.4 o'r adroddiad ceir manylion y Strategaeth Benthyciadau a'r Alldro ar gyfer y flwyddyn, a'r prif amcan yma yw fforddiadwyedd hirdymor. Daw'r rhan fwyaf o fenthyciadau'r Cyngor oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar gyfradd llog sefydlog hirdymor, ac fel yr adroddwyd yn flaenorol, ni chymerwyd benthyciadau ychwanegol yn ystod 2018-19. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal sefyllfa tan-fenthyca gan ddefnyddio arian wrth gefn yn lle dyledion benthyciadau lle bo hynny'n bosibl dros dro.

Roedd y wybodaeth am y Strategaeth Buddsoddiadau ac Alldro i'w gweld yn Adran 4.5 o'r adroddiad, a rheolwyd hon drwy roi ystyriaeth i'r prif risgiau a welwyd, statws credyd cyhoeddedig, a chyngor gan ein cynghorwyr Rheoli'r Trysorlys. Dangosai Atodiad B i'r

adroddiad y tabl cyfwerthedd ar gyfer y statws credyd cyhoeddedig gan esbonio'r gwahanol raddau buddsoddi. Daliwyd y rhan fwyaf o'r buddsoddiadau yn 2018-19 fel buddsoddiadau tymor byr gydag Awdurdodau Lleol y DU, banciau ag ansawdd credyd uchel ac mewn Cronfeydd yn y Farchnad Ariannol, gan roi mynediad ar unwaith i'r arian. Roedd crynodeb o'n proffil buddsoddiadau yn ôl math o bartïon i gontract i'w weld yn Nhabl 2 o'r adroddiad, gyda phroffil aeddfedrwydd y buddsoddiadau yn Nhabl 3. Mae'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau CBSP yn aeddfedu mewn 12 mis.

Yna amlygai Adran 4.6 o'r adroddiad drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor o ran digonolrwydd swyddogaeth y trysorlys. Dangosai hwn fod cyfradd elw gyfartalog y Cyngor ar ei fuddsoddiadau yn uwch na chyfradd elw gyfartalog buddsoddiadau a reolir yn fewnol cleientiaid Awdurdodau Lleol Unedol Cymreig Arlingclose, ar gyfer y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

Daeth y Dirprwy Bennaeth Cyllid â'i hadroddiad i ben, drwy ddweud bod y trefniadau adrodd wedi'u datgan yn adran 4.8 a bod Dangosyddion Darbodus a Rheoli Trysorlys y Cyngor i'w gweld yn Atodiad A (i'r adroddiad). Adlewyrchai hyn y ffaith bod y Cyngor, yn 2018-19, yn gweithredu o fewn y cyfyngiadau a'r dangosyddion a nodir yn y TMS y cytunwyd arnynt ar gyfer 2018-19, a'i fod hefyd yn cydymffurfio â'i arferion rheoli trysorlys.

Ni chafwyd dim cwestiynau gan yr Aelodau ar yr eitem hon ar yr agenda, felly

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

1. Yn Cymeradwyo'r gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2018-19.
2. Yn cymeradwyo ymhellach y Dangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2018-19, yn erbyn y rheini a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018-19.

353. GWYRO ODDI AR Y CYNLLUN DATBLYGU CAIS CYNLLUNIO P/19/140/FUL – DATBLYGU CANOLFAN DYSGU HEDDLU, GYMNASIWM, AILRADDIO'R SAFLE, MYNEDIAD, MAES PARCIO A GWAITH CYSYLLTIEDIG

Cyflwynodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Datblygu a Chynllunio adroddiad ar y cais cynllunio uchod a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Dywedodd wrth yr Aelodau y byddent yn gyfarwydd ag ef yn mynychu'r Cyngor i roi diweddariadau ar y CDLl a materion cynllunio eraill, lle'r oedd fel arfer yn pwysleisio pwysigrwydd cyflawni a chydymffurfio â'r Cynllun Datblygu. Ambell dro, fodd bynnag, roedd gofyn cyfeirio adroddiadau at y Cyngor, gydag unrhyw ddatblygiadau nad ydynt yn unol â'r cynllun datblygu lle bo'n rhaid i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wneud penderfyniad ynglŷn â chymeradwyo. Mae'r Pwyllgor hwn yn methu â gwneud y math hwn o benderfyniad a rhaid cyfeirio'r mater wedyn at y Cyngor i gael penderfyniad.

Mae'r cais presennol gerbron yr Aelodau yn ceisio caniatâd i ailddatblygu ardal ogledd-orllewinol safle Pencadlys Heddlu De Cymru. Cynigir datblygu Adeilad Adnoddau Dynol (PLC) a Chanolfan Ddysgu pedwar llawr ar gyfer yr Heddlu, gymnasiwm deulawr, trefniant mynediad newydd, darpariaeth parcio a gwaith tirlunio caled a meddal cysylltiedig. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys ailgyfeirio un o'r prif garthffosydd. Amlinellwyd y manylion llawn a'r asesiad yn yr adroddiad.

Mae safle'r cais yn ffurfio rhan o ddyraniad preswyl yn Ardal Twf Adfywio Strategol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer oddeutu 138 o unedau dan Bolisi COM1 (5) o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) (2013). Mae Heddlu De Cymru (HDC) wedi cynnal rhaglen ad-drefnu ar

raddfa fawr ar eu cyfleusterau a'u hasedau presennol ac, mae eu cynigion gwreiddiol ar gyfer ad-drefnu, a oedd yn cynnwys rhyddhau rhan ogleddol o gyfleusterau presennol eu Pencadlys yn gyfan gwbl ar gyfer datblygiad amgen, wedi cael eu disodli. Mae ganddynt yn awr fodd bynnag strategaeth amgen sy'n golygu bwrw ymlaen â'u rhaglen o waith gwella ac adnewyddu a chadw safle presennol y Pencadlys yn Heol y Bont-faen yn gyfan gwbl.

Ar sail y ffaith bod strategaeth ad-drefnu HDC wedi esblygu ers mabwysiadu'r CDLl yn 2013, y buddsoddiad yn safle'r Pencadlys a'r ffaith bod eu cynllun asedau i'r dyfodol yn awr yn crynhoi eu gweithgareddau a'u cyfleusterau ar eu safle presennol yn Heol y Bont-faen, nid oes posibilrwydd realistig yn awr y gellir cyflenwi dim tai dan Bolisi COM1(5) ar y safle hwn ac nid yw'r niferoedd tai mwyach yn cyfrif tuag at gyflenwad tir y Cyngor. Mae'n bosibl y bydd yr Aelodau'n cofio i'r Cyngor gymeradwyo adeilad caffi newydd ar y safle yn 2017, hefyd fel cais gwyro. Mae'r caffi'n awr wedi cael ei gwblhau ac mae'n weithredol.

Bydd y cyfleuster dan sylw yn darparu i'r Heddlu eu canolfan hyfforddiant, datblygu proffesiynol parhaus, adnoddau dynol a recriwtio mewnol, ar eu safle eu hunain. Bydd y PLC yn darparu 22 o ystafelloedd dosbarth ar gyfer hyfforddiant gyda mannau ymneilltuo cysylltiedig, canolfan recriwtio adnoddau dynol yn ogystal â gofod swyddfa ar gyfer adrannau mewnol ar draws yr heddlu. Bydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer uned asesiadau a safonau, uned hyfforddiant gweithrediadau, cyfleusterau hyfforddiant ymchwiliol a 'phlismona drwy dechnoleg'. Bydd yr adeilad hefyd yn darparu lle i swyddfa ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Bydd yr adeilad PLC newydd yn cael ei ddefnyddio'n fras yn y gymhareb 75% ar gyfer hyfforddiant a 25% ar gyfer adnoddau dynol.

Lleolir y brif fynedfa drwy'r ystâd ddiwydiannol i'r gogledd gyda chyfleusterau gwell i gerddwyr o Heol y Bont-faen, cafodd asesiad trafnidiaeth manwl ei gyflwyno ac mae'r swyddogion priffyrdd wedi cytuno arno.
Mae'r gyfraith cynllunio'n mynnu bod yn rhaid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod amgylchiadau sylweddol yn mynnu fel arall.

Yn yr achos hwn, heb ystyried colli'r dyraniad tai, mae'n glir na all y datblygiad preswyl fwrw ymlaen bellach oherwydd y strategaeth ystadau ddiwygiedig a'r datblygiad blaenorol. At hynny, mae'r buddsoddiad yn y safle a'r ailddatblygu cynhwysfawr i'w groesawu gan fod HDC wedi gwneud ymrwymiad cadarn i gyfnerthu a chynnal ei weithrediadau yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd y strategaeth yn sicrhau y caiff cyfleuster Pencadlys pwysig ei gadw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan greu a chynnal felly gyfleoedd cyflogaeth sgiliau uwch yn ogystal â darparu gwasanaeth cymunedol a chymdeithasol gwerthfawr i breswylwyr a chymunedau Pen-y-bont ar Ogwr.

Clôdd Rheolwr y Grŵp – Gwasanaethau Datblygu a Chynllunio ei adroddiad, drwy gadarnhau y caiff dyraniadau tai amgen eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl ac y bydd yr ymgynghoriad ar y strategaeth a ffafrir yn dechrau ddiwedd y mis.

Ni chafwyd dim cwestiynau gan yr Aelodau am yr adroddiad.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Y dylai'r Cyngor fod o blaid peidio â gwrthod y datblygiad ar ôl i'r Cytundeb Cyfreithiol Adran 106 rhwng Heddlu De Cymru a'r Cyngor gael ei lofnodi, y dylid rhoi pwerau dirprwyedig i'r Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Datblygu a Chynllunio (fel rhan o'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau) i gyflwyno hysbysiad o benderfyniad ynglŷn â'r cynnig hwn, gan gynnwys y cyfyngiad amser 5 mlynedd

safonol i'w weithredu a'r Amodau sydd ynghlwm wrth yr argymhelliad.

354. PENODI CYNRYCHIOLYDD COFRESTREDIG I'R PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU TESTUNAU

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad a geisiai gymeradwyaeth y Cyngor i benodi Ms. Lynsey Morris fel Cynrychiolydd Cofrestredig Rhiant-lywodraethwyr Ysgolion Uwchradd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Testunau (ar gyfer eitemau sy'n gysylltiedig ag Addysg), am hyd at bedair blynedd.

Esboniodd fod Ms. Morris wedi cael ei henwebu yn lle Mr. Kevin Pascoe yr oedd ei dymor yn yr un rôl yn awr wedi dod i ben.

Yn unol â hynny, yn dilyn pleidlais a gynhaliwyd yn unol â Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001, roedd y newid uchod wedi'i gyflwyno.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r adroddiad ac yn cymeradwyo penodi Ms. Lynsey Morris fel Cynrychiolydd Cofrestredig dros y materion Addysg a ystyria'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Testunau, am uchafswm o bedair blynedd fel y Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr Ysgolion Uwchradd.

355. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol adroddiad, gyda'r diben o hysbysu'r Cyngor o'r Adroddiadau Gwybodaeth i'w Nodi a gyhoeddwyd ers ei gyfarfod diwethaf.

PENDERFYNWYD: Cydnabu'r Cyngor gyhoeddi'r dogfennau a restrwyd yn yr adroddiad.

356. DERBYN Y CWESTIWN CANLYNOL GAN:

Y Cynghorydd Tim Thomas i'r Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio

Mae gan awdurdodau lleol cyfagos fel Bro Morgannwg nodweddion a heriau tebyg o ran y Gymraeg. A fyddai'r Aelod Cabinet yn cytuno y dylai'r ddarpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod hwn, o leiaf, fod cystal â'r ddarpariaeth ym Mro Morgannwg.

Ymateb

1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn awyddus i hyrwyddo'r Gymraeg ac mae wedi ymrwymo'n llwyr i weithio â Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Aelodau etholedig a'r swyddogion oll yn gwbl gefnogol i'r Gymraeg a'r hyn y mae'n ei olygu i Ben-y-bont ar Ogwr ac i ddyfodol ein cenedl. Mae'r awdurdod lleol yn barod i hybu manteision dwyieithrwydd ar bob cyfle ac mae'n rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg.

2. Ychydig o werth sydd i gymharu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r ddarpariaeth ym Mro Morgannwg. Mae methodoleg arfaethedig Llywodraeth Cymru (gweler yr ymgynghoriad diweddar ar y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a'r Canllawiau) yn rhoi ystyriaeth i ystod y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar

draws Cymru drwy gyflwyno system grwpiau. Dyma'r ffactorau a ystyrir wrth grwpio awdurdodau lleol: canran y dysgwyr a addysgir yn Gymraeg, y modelau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a fabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol a natur ieithyddol awdurdod lleol.

3. Mae'r canllawiau arfaethedig yn adnabod awdurdodau lleol 'Grŵp 3' fel rhai sydd â rhwng 13% a 19% o blant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn 2017-2018). Mae'n bosibl mai addysg gymunedol cyfrwng Cymraeg sy'n arferol mewn un/nifer fechan iawn o ardaloedd, ond yr eithriad nid y rheol yw hyn. Ceir fel arfer ddewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg. Caiff awdurdodau lleol 'Grŵp 4' eu hadnabod fel rhai sydd â 12% neu lai o blant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn 2017-2018). Ceir dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg yn yr awdurdodau lleol hyn. Ar y sail hon, caiff Pen-y-bont ar Ogwr ei adnabod fel awdurdod lleol Grŵp 4 tra bo Bro Morgannwg yn syrthio i Grŵp 3.

4. Fel awdurdod lleol, rydym yn cyfrif ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) fel y ddogfen strategol allweddol sy'n amlinellu ein strategaeth i gefnogi'r gwaith o gyflenwi a thyfu addysg cyfrwng Cymraeg. Gallaf gadarnhau bod WESP Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Daeth yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a'r Canllawiau i ben yn ddiweddar (ar 13 Medi 2019) ac, felly, rydyn ni'n aros am ganlyniad yr ymgynghoriad hwn. Bydd yr awdurdod lleol yn ymateb yn unol â hynny i'r rheoliadau newydd os cânt eu cymeradwyo fel y'u drafftiwyd.

5. Fodd bynnag, fel y nodir yn arolygiad diweddar yr awdurdod lleol, mae angen inni gryfhau rôl y Fforwm Strategol Addysg Gymraeg i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn ein WESP. Bydd y flaenoriaeth hon yn ffurfio rhan allweddol o'n cynllun gweithredu ôl-arolygiad a gaiff ei rannu gan y Fforwm Strategol Addysg Gymraeg a'i fonitro ganddo.

6. Mae'n bwysig sylwi bod 13.9% o leoedd gwag o hyd ym mhedair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yr awdurdod lleol ac 20.9% o leoedd gwag yn yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, a rhaid rhoi ystyriaeth i hynny. Mae Swyddogion wedi cyfarfod â swyddogion o Lywodraeth Cymru yn ddiweddar i drafod sut gall yr awdurdod lleol hyrwyddo'n well yr iaith Gymraeg, a manteision addysg cyfrwng Cymraeg, gyda'r nod o lenwi'r lleoedd sydd ar gael yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn gweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth Cymru dros y misoedd nesaf i roi sylw i'r mater hwn.

7. Mae cynlluniau moderneiddio ysgolion yr awdurdod lleol, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn ddiweddar, wedi nodi'r ardaloedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd fwyaf angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg ychwanegol, i fodloni'r galw a'r galw disgwyliedig yn sgil prosiectau tai newydd. Cyfyngwyd ar y gallu i ledaenu'r manylion sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn gan y broses y mae angen gweithio drwyddi sy'n cael ei rheoli gan fframwaith deddfwriaethol caeth.

8. Yr argymhelliad cyfredol gan Fwrdd Moderneiddio Ysgolion yr awdurdod lleol, yw cynyddu'r ddarpariaeth yng ngogledd-ddwyrain a gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr. Mae Tabl A isod yn nodi'r hyn y bydd y Bwrdd Moderneiddio Ysgolion yn ei gynnig i'r Cabinet dros y misoedd nesaf i sicrhau bod nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg yn cynyddu i fodloni ein hawydd a'n dyletswydd fel awdurdod lleol sy'n rhan o Fand B.

Tabl A Lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr (ffigurau cyfredol ac amcanestynedig)

| Lleoliad | Lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd | Lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a fwriedir ar gyfer Band B (2019-2024) |
|---|---|---|
| Gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr | 378 | 525 |
| Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr | 231 | 420 |
| Cwm Ogwr a Chwm Garw | 210 | 210 |
| Cwm Llynfi | 315 | 315 |
| Cyfanswm | 1134 | 1470 |

9. Erbyn diwedd Band B, er mwyn cefnogi'r WESP a'r cynllun Cymraeg 2050, ceir cynnydd arfaethedig o 30% yn nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr i helpu plant sy'n dechrau mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn amlwg yn sylweddol.

10. Bu'r awdurdod lleol wrthi'n brysur yn ceisio ac yn sicrhau cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol. Er enghraifft, bydd y gweithgaredd cyfredol ac amcanestynedig yn arwain at fuddsoddi bron £3m yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r cyllid hwn i helpu i ddatblygu pedwar lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws Pen-y-bont ar Ogwr. Bwriedir i'r lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg arfaethedig gynnig gofal drwy'r dydd, gofal nos a bore, gofal gwyliau a darpariaeth sesiynol Cylch Meithrin. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi defnyddio'r cyllid hwn i hwyluso'r gwaith o ddarparu cyfleuster pob tywydd newydd ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.

11. Yr ardaloedd a enwyd ar gyfer y datblygiadau gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd yw Betws, Cwm Ogwr, ardal canol Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl. Y bwriad yw cynyddu nifer y plant a fydd yn dechrau mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg ac a fydd wedyn yn symud ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y darpariaethau oll yn ysgolion bwydo effeithiol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg Pen-y-bont ar Ogwr ac fe fyddant, o'r herwydd, gyda lwc yn rhoi sylw i'r problemau a geir â lleoedd gwag ar hyn o bryd yn yr ysgolion hyn. Ochr yn ochr â hyn, mae'r awdurdod lleol yn ddiweddar wedi datblygu llyfryn gwybodaeth i hyrwyddo manteision darpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant a'u teuluoedd.

12. Roedd Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd a gwblhawyd yn ddiweddar yn ffurfio rhan o gynllun De Cwm Garw. Fel rhan o'r cynllun, cafodd Ysgol Gynradd Gymraeg bresennol Cwm Garw ei disodli a'i hail-leoli a disodlwyd Ysgol Gynradd Betws, i safle Ysgol Gynradd bresennol Betws. Buddsoddwyd cyfanswm o £11.2m ar gyfer y cynllun a oedd yn cynnwys dwy ysgol newydd.

13. Mae cydleoli darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar un safle yn hwyluso'r trefniadau ar gyfer rhannu ymarfer da a sicrhau darpariaeth gyfartal, ynghyd â mwy o gyfleoedd addysgol. Mae'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn

darparu mannau dysgu addas a digonol gyda'r nod o sicrhau gwelliannau dilynol mewn safonau addysg. Mae'n galonogol gweld y bu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd ers iddi agor yn ei lleoliad newydd.

14. Fel rhan o gyllid grant cyfalaf Cymraeg 2050, darperir adeilad gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd yn y Betws i wasanaethu Cwm Garw. Nod y ddarpariaeth hon yw hybu'r Gymraeg a chynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd. Bydd ail-leoli Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd i leoliad mwy canolog yn helpu i roi sylw i leoedd gwag a bodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

15. O ran y safonau, mae ein pum ysgol cyfrwng Cymraeg bresennol, ar hyn o bryd, naill ai yn y categori cymorth 'gwyrdd' neu 'felyn'. Dywedodd Estyn, yn ei arolygiad diweddar o wasanaethau addysg llywodraeth leol Pen-y-bont ar Ogwr, fod cyrhaeddiad disgyblion yng Nghymru yn cymharu'n ffafriol â chyrhaeddiad disgyblion mewn awdurdodau lleol eraill. Rydyn ni'n credu bod gennym benaethiaid effeithiol yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg ac rydym yn falch o weld eu bod yn gweithio'n dda â'u cydweithwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill ar draws y rhanbarth.

16. I gloi, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn dal yr un mor ymroddedig i hybu'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Yn unol â'n hymrwymiadau yn WESP, byddwn yn gweithio'n agos â'n partneriaid megis Llywodraeth Cymru a Fforwm Strategol Addysg Gymraeg i sicrhau bod yr addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Thomas**

Mae gan Fro Morgannwg ddemograffeg debyg i Ben-y-bont ar Ogwr o ran ysgolion cyfrwng Cymraeg, fodd bynnag, mae ganddynt 6 ysgol gynradd sy'n ymarfer drwy gyfrwng y Gymraeg ond nid oes gan CBSP ond 4. Mae unrhyw ysgolion ychwanegol yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi'u clustnodi fel rhai ychwanegol at hyn, yn cael eu cynllunio drwy brosiectau Adfywio mawr nad ydynt wedi'u cyflawni eto. Gofynnodd pa sgyrsiau'r oedd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth Teulu yn eu cael â'u cydweithwyr yn yr adran Gynllunio i gael ysgolion ychwanegol i ymarfer drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ymateb**

Dywedodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio ei fod ef a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth Teulu wrthi'n brysur yn cynyddu proffil llythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae hefyd wedi bod yn brysur yn annog trafodaethau rhwng Addysg a Chynllunio yn CBSP am y ddarpariaeth ysgolion yn y Cynllun Datblygu Lleol, gan archwilio safleoedd newydd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer tai ac, o ganlyniad i hyn, yn ystyried a oedd angen codi ysgolion newydd i gefnogi hyn. Ategodd ei bod yn anodd cymharu CBSP â Chyngor Bro Morgannwg ar y mater o addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion, am y rhesymau y cyfeirir atynt yn yr ymateb i'r cwestiwn cyntaf. Er mwyn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer benodol o siaradwyr Cymraeg, mae'n bwysig peidio â dim ond dibynnu ar ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae gofyn gwneud nifer o newidiadau ar draws y system addysg, ennyn diddordeb yn yr holl ieithoedd rhyngwladol modern, gan gynnwys Cymraeg, a mynd y tu hwnt i ond dysgu iaith i ennyn diddordeb mewn ieithoedd a diwylliannau yn gyffredinol. Dylem edrych ar dechnegau trochi cost-effeithiol ar gyfer dysgu iaith yn gyflym, a hefyd ymgysylltu â gwasanaethau addysg Dysgu Gydol

Oes ac Addysg Oedolion, yn ogystal ag annog ymwybyddiaeth aml-iaith ac aml-ddiwylliant yn y cyfryngau. Roeddem yn gobeithio y byddai'r Fforwm WESP newydd yn cynnwys dull gweithredu eang a fyddai'n sicrhau diddordeb yn y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig mewn cyd-destun Ewropeaidd a rhyngwladol eangfrydig.

Ychwanegodd yr Arweinydd bod yr awdurdod wedi buddsoddi £11.2miliwn yn y ddwy ysgol newydd ym Metws a oedd yn adlewyrchu ymrwymiad CBSPenybont i addysgu myfyrwyr yn Gymraeg a Saesneg, gan barhau â'r gwaith rhagorol sydd wedi'i wneud hyd yn hyn dan Raglen Moderneiddio Ysgolion y 21ain Ganrif flaenllaw'r Cyngor. Bydd buddsoddiad cyfalaf mwyaf y Cyngor yn y dyfodol yn digwydd yn y cam nesaf, Band B y rhaglen Moderneiddio Ysgolion, cyfanswm o dros £65 miliwn. Roedd holl aelodau'r awdurdod wedi neilltuo 50% o'r ddarpariaeth gynradd newydd ym Mand B y rhaglen i lefydd cyfrwng Cymraeg. Roedd yr awdurdod hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu cyfleusterau gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd yng Nghwm Ogwr, Betws, Porthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr. Byddai'r awdurdod yn ystyried yn frwdfrydig unrhyw gyfleoedd a godir gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth Teulu hefyd y bu twf sylweddol yn y defnydd o'r cyfrwng Cymraeg ym Mand B, gydag ysgolion wedi darparu 300 o lefydd yn ychwanegol ar gyfer disgyblion yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Gareth Howells**

A allech rannu â'r Aelodau yr amcanion a geir yng Nghynllun Strategol Addysg Gymraeg (WESP) y Cyngor?

**Ymateb**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth Teulu mai nod WESP Pen-y-bont ar Ogwr oedd:

- Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o ddysgwyr yn dal i wella eu sgiliau iaith pan maent yn symud o'r ysgol gynradd i'r uwchradd
- Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith
- Mwy o fyfyrwyr sy'n meddu ar sgiliau uwch yn y Gymraeg
- Mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob dysgwr ag AAA
- Cynllunio'r gweithlu a datblygu proffesiynol parhaus

Cafodd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2017 – 2020 ei ddatblygu â rhanddeiliaid a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2018. Mae hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod ein gweledigaeth, ein hamcanion a'n canlyniadau o safbwynt addysg Gymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn briodol.

**Trydydd cwestiwn atodol a godwyd gan y Cynghorydd Nicole Burnett**

Mewn canrannau, faint yn fwy o ddisgyblion a fydd wedi cael eu haddysgu mewn ysgolion drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn diwedd Band B (hy 2024)?

**Ymateb**

Oddeutu 30%.

357. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:10